

Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 6ed o Chwefror 2023 am 7:00pm

Presennol: Cyngorydd Bethan Lawton (Cadeirydd)

Cyngorwyr: Richard Jones Evans, Geraint Evans, Alan H Jones, Arwel Pierce

1. Ymddiheuriadau: Cyngorwyr: Richard C Evans, Geraint Edwards

2. Datgan diddordeb: Dim

3. Derbyn cofnodion 23 Ionawr 2023:

Nid oedd y cofnodion wedi cyrraedd dros e-bost.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion yn y cyfarfod nesaf.

4. Cyfrifon i'w talu:

Un Llais Cymru	Aelodaeth	101823	£142.00
Phill Roberts	Pentref	101824	£100.00
B Gwilym	Cyflog	101825	£210.06
Cyllid a Thollau EM	Treth	101826	£52.60

PENDERFYNIAD: I dalu'r anfonebau uchod.

5. Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor Tref Tywyn – Afon Fathew / pryder am lifogydd:

Ymunodd y Cyngorydd Alan H Jones y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

PENDERFYNIAD: Angen cysylltu a Mabon ap Gwynfor AS er mwyn nodi pryderon lleol, gan ofyn iddo adrodd am bryderon yn ei gyfarfodydd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, gan hefyd ofyn iddo drefnu cyfarfod gyda CNC a chynghorau cymuned Tywyn, Llanegryn a Bryncrug.

6. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Tynllwyn Hen, Bryncrug, LL36 9RE (NP5/55/T21G):

PENDERFYNIAD: I ddatgan nad oes gan y cyngor wrthwynebiad i'r cais a bod y cyngor yn cefnogi'r cais.

7. Aelod o'r cyhoedd - cais am gefnogaeth tuag at cais cynllunio:

Y cais cynllunio wedi ei drafod yn eitem 6 ar y rhaglen.

PENDERFYNIAD: I hysbysu'r unigolyn o benderfyniad y cyngor ar y cais cynllunio.

8. Bancio - adolygu trefniadau bancio'r cyngor:

Nodwyd bod cangen Barclays yn Nolgellau wedi cau a bod angen teithio i Bwllheli, Fangor, Landudno neu Aberystwyth. Nodwyd hefyd bod cwmni Dŵr Cymru wedi anfon llythyr yn hysbysu'r cyngor nad ydynt bellach yn derbyn taliad drwy siec.

PENDERFYNIAD: Edrych mewn i gau dau allan o pedwar cyfrif banc sydd yn enw'r cyngor, gan edrych ar oblygiadau ee cyfradd llog.
I drefnu bod bil dŵr y Pafiliwn yn cael ei dalu drwy Ddebyd Uniongyrchol DD

9. Baw cŵn - cwynion o ardal Pen Parc:

Nodwyd bod cyngorydd wedi cael cwyn gan aelod o'r cyhoedd, bin baw ci wedi ei osod gyferbyn a ffenestr y tŷ.

PENDERFYNIAD: I gysylltu gyda Chyngor Gwynedd er mwyn adrodd am y gwyn, gan ofyn am fanylion sut y bu i Gyngor Gwynedd ddewis y lleoliad, gan nad oedd Cyngor Gwynedd wedi ymgynghori gyda'r cyngor cymuned.

10. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:

- Goleuadau wedi cael eu gadael ymlaen mewn dau doiled ar ôl gem bêl-droed
- Gwres ddim i weld yn gweithio yn y bocs cadw'r peiriant defibrileiddio
- Ysbwriel wedi ei adael ar y cae pêl-droed ar ôl gem a'r gegin heb ei glirio

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.
I anfon llythyr ar frys at swyddogion y clwb pêl-droed gan ofyn iddynt lanhau'r gegin, y cae ar ôl pob defnydd, gan y byddai raid i'r cyngor dynnu caniatâd i ddefnyddio'r cae a'r Pafiliwn yn ôl. Hefyd, angen hysbysu'r clwb bod goleuadau wedi cael eu gadael ymlaen a bod angen sicrhau bod y gwresogydd dwr wedi ei ddiffodd ar ôl pob gem

11. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:

- Problemau parcio ym Maeshyfyrd, gyda modurwyr yn parcio ceir ar y palmant

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

12. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

PENDERFYNIAD: I drafod llwybrau cyhoeddus fel eitem ar agenda nesaf.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 7:28pm

Llofnod y Cadeirydd